# CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG

| Enw’r Awdurdod Lleol |
|---|
| **Gwynedd** |
| **Cyfnod y Cynllun hwn** |
| **Medi 2022-Awst 31ain, 2032.** |

**Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg hwn yn cael ei wneud o dan adran 84 o *Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013* ac mae’r cynnwys yn cydymffurfio â *Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019*[1-2]. Rydym wedi rhoi sylw dyledus i'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru wrth bennu ein targedau.**

**Llofnod**: ............................................ **Dyddiad**: ............................

(Mae angen i'r Prif Swyddog Addysg yn eich awdurdod lleol lofnodi'r Cynllun hwn)

[1] Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019
[2] Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020

## Nodiadau i'ch cynorthwyo

**Bydd angen i chi amlinellu gweledigaeth addysg cyfrwng Cymraeg eich awdurdod lleol dros y deng mlynedd nesaf a'r prif amcanion strategol ar gyfer y cyfnod hwn. Dangoswch sut y byddwch yn cyflawni Deilliant 1-7 gan gyfeirio at y Canllawiau.**

**Cyn cwblhau'r templed hwn, cyfeiriwch yn benodol at Rhan 2 o'r Canllawiau ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.**

**https://llyw.cymru/cynlluniau-strategol-cymraeg-mewn-addysg**

**Mae'r rhan hon yn nodi'r gofynion statudol ar gyfer yr hyn y mae'n rhaid ei gynnwys yn eich Cynllun (fel yr amlinellir yn Atodlen y Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019). Yn ogystal â'ch targed 10 mlynedd cyffredinol, mae rhai datganiadau yn yr Atodlen yn gofyn i chi osod targedau eraill, ac os felly, dylech hefyd gyfeirio at y rheini.**

## Ein gweledigaeth deng mlynedd ar gyfer cynyddu a gwella'r cynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn ein hardal

“Rwy’n falch o gyhoeddi C**ynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Gwynedd 2022-2032**. Mae’r Cynllun yn adlewyrchu fy ngweledigaeth o gael cyfundrefn addysg Gymraeg a dwyieithog sydd yn rhoi anghenon ein holl ddysgwyr yn ganolog i’n darpariaeth. Mae’r Cynllun yn gosod ymrwymiad a chyfeiriad clir ar gyfer sicrhau bod dysgwyr Gwynedd yn cyflawni’r safonau uchaf er mwyn cynnal yr iaith, diwylliant a’r economi yn lleol.

Mae Adrannau’r Cyngor, ysgolion a phartneriaid ehangach yn ymrwymo i wireddu holl nodau ac amcanion **Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg** ac yn sgil hynny gefnogi strategaeth Llywodraeth Cymru i gyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, gan sicrhau bod cyfleoedd ar bob cyfnod ym mywyd unigolyn i ddysgu Cymraeg ac i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Ymgorfforir yma weledigaeth *Cynllun Hybu’r Gymraeg yng Ngwynedd* (2013-23), a rhoddir ystyriaeth yn ogystal, i ofynion y deddfau a’r strategaethau canlynol wrth lunio’r Cynllun: *Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol* (2015) *Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol: Symud Cymru Ymlaen* (2016-2021), *Cytundeb Blaengar* (2016), *Deddf ADY a Thribiwnlys Addysg (Cymru)* (2018).”

Y Cynghorydd Cemlyn Rees Williams,
Aelod Cabinet Addysg.

“Mae hi’n gyfnod hynod o gyffrous i’r iaith Gymraeg a hoffwn sicrhau darpariaeth, profiadau a chefnogaeth o ansawdd uchel yn y Gymraeg sydd yn ymateb i anghenion y dysgwyr a’u teuluoedd, ac yn gyfrwng i’w harfogi fe dysgwyr annibynnol a hyderus ddwyieithog i’w galluogi i lwyddo a ffynnu. Yn yr un modd, hoffwn sicrhau bod holl weithlu ein hysgolion yn hyderus ddwyieithog, gan dderbyn pob cefnogaeth i feithrin eu hyder a’u sgiliau yn yr iaith Gymraeg, gan allu trosglwyddo’r sgiliau hynny’n effeithiol i addysgu a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog ar lawr dosbarth.”

Garem Prytherch Jackson
Pennaeth Addysg Gwynedd.

Ein nod yw sicrhau y bydd yr holl rhanddeiliaid yn gweithredu’n effeithiol mewn perthynas â’r Gymraeg er mwyn sicrhau dilyniant o un cyfnod allweddol i’r nesaf yn unol â’r trefniadau a nodir yn y **Cytundeb Partneriaeth** rhwng yr Awdurdod a’r ysgolion a’r cylchoedd meithrin. Yn y cyd-destun hwn, byddwn yn tynnu sylw’r aelodau etholedig lleol ynghyd â Chadeirydd y Llywodraethwyr at unrhyw faterion o bryder sydd yn berthnasol i ddiffyg gweithredu ar gynnwys y Polisi Iaith neu Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

**Cysylltu**

Os hoffech ragor o wybodaeth am y Gymraeg, Polisi Iaith Addysg, neu Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, gallwch gysylltu â:


Pennaeth Addysg
Adran Addysg
Pencadlys
Cyngor Gwynedd
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Ffôn: 01286 679 467

e-bost: garemjackson@gwynedd.llyw.cymru


**Fersiynau Hygyrch**

Os y dymunir, gellir darparu fersiynau hygyrch o Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Gwynedd 2017-20 ar gais; mae hyn yn cynnwys:

- Fersiwn print bras
- Fersiwn ar dâp
- Fersiwn mewn braille
- Fersiwn iaith arwyddion (BSL)

Cysylltwch gyda'r Pennaeth Addysg i archebu fersiwn hygyrch.

# Deilliant 1

## Mwy o blant meithrin/ tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

### Ble rydym ni nawr?

Nod Polisi Iaith Gwynedd yw sicrhau bod holl ddisgyblion y sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Sicrheir bod pob lleoliad Blynyddoedd Cynnar yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer y Gymraeg, a sicrhau fod pob plentyn yn cael asesiad sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y Gymraeg ar fynediad ac ar derfyn addysg feithrin rhan amser ac ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Rhaid sicrhau darpariaeth addas i ganiatáu i bob disgybl ddatblygu'n hyfedr ddwyieithog. Ceir 58 o leoliadau addysg nad sy'n cynnal y Blynyddoedd Cynnar yng Ngwynedd.

Mae cytundeb darparu addysg feithrin Gwynedd yn ei gwneud yn hanfodol i ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gweler isod ein sefyllfa bresennol mewn perthynas â nifer y plant meithrin/tair oed sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Data Cylchoedd Meithrin Gwynedd 2018-19 (Dim data 2019-20 ar gael yn sgil COVID):

| **Ardal** | **Nifer Cylchoedd Meithrin** | **Nifer / % plant meithrin 3 oed sydd yn trosglwyddo i addysg Gymraeg** | |
|---|---|---|---|
| Arfon | 28 | 834 | 99.3% |
| Dwyfor | 18 | 301 | 100% |
| Meirionnydd | 19 | 346 | 100% |

### Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

Byddwn yn anelu i barhau i gynnal y safonau uchel o gyrraedd y targed o 100% o blant 3 oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

| **EIN PRIF AMCANION I GYFLAWNI'N DEILLIANNAU** | **SUT Y BYDDWN YN CYFLAWNI'N HAMCANION** |
|---|---|
| Gwneud defnydd o ddata o adolygiad o ddigonolrwydd darpariaeth gofal plant er mwyn cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg o fewn y Sir. | Cynllunio i sicrhau bod yr Awdurdod yn cyflawni'r gofyn statudol o sicrhau lle meithrin i bob plentyn o'r tymor yn dilyn ei ben-blwydd yn 3 oed.<br>Swyddog Addysg Meirion/Dwyfor (GApRh) |
| | Monitro'n rheolaidd yr holl leoliadau, gan gynnwys leoliadau'r mudiadau gwirfoddol, i sicrhau'u cydymffurfiaeth á gofynion Polisi Iaith y Sir. |

| | |
|---|---|
| | Cydweithio gyda'r Mudiadau gofal plant i hyrwyddo'r prosiect 'EDI' - rhan o'r cynllun 'Cymraeg Gwaith' sy'n cael ei ddatblygu gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol, ar gyfer unrhyw aelodau staff angen cryfhau eu defnydd o'r iaith yn y gweithle.<br>Rheolwr Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar (SAO)<br>Swyddog Addysg Meirion/Dwyfor (GApRh) |
| Darparu gwybodaeth i rieni o ran argaeledd addysg cyfrwng Cymraeg a'r math o addysg cyfrwng Cymraeg gaiff ei gynnig. | Manteisio ar bob cyfle i gyfathrebu a chyd-gynllunio gyda chyrff ym maes y Blynyddoedd Cynnar, gan gynnwys Mudiad Meithrin, i gryfhau ac ehangu'r ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg, er mwyn sicrhau llwybr di-dor at addysg ddwyieithog, yn unol â Pholisi Iaith y Sir.<br>Rheolwr Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar (SAO)<br>Swyddog Addysg Meirion/Dwyfor (GApRh) |
| Darparu gwybodaeth i rieni a gofalwyr sy'n datgan bod addysg cyfrwng Cymraeg yn opsiwn i bersonau, waeth beth fo'u cefndir ieithyddol. | Sicrhau bod gwybodaeth glir a chynhwysfawr yn cael ei chynnwys yn y llyfryn/trefniadau ar gyfer derbyniadau cyfrwng Cymraeg, gan ei adolygu a'i ddiweddaru'n gyson.<br>Swyddogion Addysg (DJ/RhPJ) |
| | Cynnwys y wybodaeth berthnasol ar wefan yr Awdurdod.<br>Swyddogion Addysg (DJ/RhPJ) |
| Gwneud y defnydd gorau o wybodaeth ynghylch y manteision a ddaw yn sgil dwyieithrwydd ac amlieithrwydd. | Manteisio ar ymgyrchoedd a rhaglenni marchnata'r Llywodraeth e.e gwefannau, sianel YouTube, sianeli eraill y Llywodraeth wrth wneud hynny.<br>Cydlynydd Siarter Iaith/<br>Swyddog Addysg Meirion/Dwyfor (GApRh)<br>Swyddog Addysg Arfon (DJ) |
| | Darparu hyfforddiant i swyddogion sy'n ymdrin ag ymholiadau gan rieni ar sut i drafod yr opsiynau addysg cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn ogystal â chwestiynau/pryderon cyffredin all godi.<br>Cydlynydd Siarter Iaith/<br>Swyddog Addysg Arfon (DJ) |
| | Sicrhau bod Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ar gyfer rhieni/gofalwyr a darpar rieni/gofalwyr yn darparu gwybodaeth am fanteision magu plant yn ddwyieithog.<br>Cydlynydd Siarter Iaith/ Rheolwr Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar (SAO)<br>Swyddog Addysg Meirion/Dwyfor (GApRh) |

| | |
|---|---|
| | Cyfeirio unigolion at lenyddiaeth a chyhoeddiadau Cymraeg a darparu gwybodaeth am gyfleoedd i oedolion ddysgu Cymraeg, gan roi ystyriaeth i beth allai fod yn bryder i rieni/gofalwyr. Ymateb i'r pryderon hynny mewn gwybodaeth/llenyddiaeth sy'n cael ei dosbarthu.<br>Cydlynydd Siarter Iaith/ Rheolwr Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar<br>Swyddog Addysg Meirion/Dwyfor (GApRh) |
| | Cyd-weithio gyda chyrff cyhoeddus megis Cymraeg i Blant, Consortia Rhanbarthol, RhAG, Urdd Gobaith Cymru a Mentrau Iaith.<br>Cydlynydd Siarter Iaith/<br>Swyddog Addysg Meirion/Dwyfor (GApRh) |
| | Sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion a rhieni ddeall a thrafod manteision dwyieithrwydd ac amlieithrwydd, gan arddel y Gymraeg, gan egluro beth yw'r manteision addysgol, cymdeithasol, diwylliannol a chael gwaith ac ennill arian o wneud hynny.<br>Negeseuon cyson a chlir yn cael eu rhannu gyda rhieni am drefn a gweledigaeth y Sir. Llawlyfr Gwybodaeth i Rieni yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru i atgyfnerthu'r prif negeseuon. Amlygu Polisi Iaith y Sir ym mhob trafodaeth gyda rhieni. Parhau i geisio ysbrydoli'n plant i wneud defnydd llawn o'u Cymraeg yn eu bywydau bob dydd gan egluro beth yw'r manteision addysgol, cymdeithasol, diwylliannol a chael gwaith ac ennill arian o wneud hynny.<br>Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg/Swyddog Addysg Meirion/Dwyfor (GApRh)/Penaethiaid ac athrawon ysgolion |

## Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

Ar ddiwedd ein cynllun deng mlynedd fe ddylai Gwasanaethau Addysg y Blynyddoedd Cynnar fod yn cynnal yr un safonau uchel, ac yn sicrhau darpariaeth addas i ganiatáu i bob disgybl ddatblygu'n hyfedr ddwyieithog ymhob un o'r darpariaethau.

## Data Allweddol

Nid oes unrhyw ddata genedigaethau ar gael. Gellir nodi fod y genedigaethau yn gyffredinol is – gyda 1300 genedigaeth wedi'u cofnodi yn 2022.

| Niferoedd a % y plant meithrin/ tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
| | | | | | | | | | |

| 2027 - 2028 | | 2028 - 2029 | | 2029 - 2030 | | 2030 - 2031 | | 2031 - 2032 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | |

# Deilliant 2

## Mwy o blant dosbarth derbyn/ pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

### Ble rydym ni nawr?

Nod y Polisi Iaith yw sicrhau bod holl ddisgyblion y sir, ym mhob un o'n hysgolion, yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Nid yw'r Sir yn diffinio ysgolion yn ôl categorïau ieithyddol gan fod yr un Polisi Iaith ar waith ymhob ysgol. Rhaid sicrhau darpariaeth addas i ganiatáu i bob disgybl ddatblygu'n hyfedr ddwyieithog. Ceir 80 Ysgol Gynradd, 2 Ysgol Ddilynol a 2 Ysgol Arbennig yng Ngwynedd.

Mae Polisi Iaith yr Awdurdod yn rhoi pwyslais ar drochi dysgwyr 0-7 oed yn y Gymraeg, gan sicrhau mai asesiad Cymraeg yn unig a gânt ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Yn 2018-19, bu i 98.5% o ddysgwyr gael eu hasesu yn y Gymraeg fel Iaith Gyntaf ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.

Ein sefyllfa bresennol yn ymwneud â nifer y disgyblion dosbarth derbyn/pump oed sydd yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

| BLWYDDYN | NIFEROEDD |
|---|---|
| 2021 | 1127 |
| 2022 | 1105 |
| 2023 | 1019 |

### Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

Byddwn yn anelu i sicrhau y bydd 100% o'n dysgwyr dosbarth derbyn/plant pump oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg, drwy sicrhau hyfforddiant priodol i gefnogi a chynnal staff fydd angen y gefnogaeth i'w galluogi i wneud hynny. Amlinellir ein prif amcanion i gyflawni'r deilliannau yma:

| EIN PRIF AMCANION I GYFLAWNI'N DEILLIANNAU | SUT Y BYDDWN YN CYFLAWNI'N HAMCANION |
|---|---|
| Sicrhau bob pob dysgwr dosbarth derbyn/5 oed yng Ngwynedd yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. | Sicrhau bod yr ysgolion yn ymwybodol o'r drefn yng Ngwynedd.<br>GwE/<br>Swyddog Addysg Arfon (DJ) |
| | Arfogi gweithlu'r Cyfnod Sylfaen yn egwyddorion addysg drochi i'w galluogi i ymateb i anghenion disgyblion sy'n newydd ddyfodiaid i'r ysgol, ac/neu i newydd ddyfodiaid sy'n trosglwyddo'n ôl i'r ysgolion yn dilyn cyfnod yn y Gyfundrefn Drochi.<br>Cydlynydd Siarter Iaith/ Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg, Cefnogaeth Gorfforaethol/ Swyddog Addysg Arfon (DJ) Staff Ysgolion |

| | |
|---|---|
| | Bydd yr ysgolion yn adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cyfnod meithrin drwy barhau i ddatblygu gafael disgyblion pump oed ar y Gymraeg, a chychwyn ar y broses o ddatblygu eu sgiliau yn y Saesneg.<br>Cydlynydd Siarter Iaith/ GwE<br>Swyddog Addysg Arfon (DJ) |
| | Bydd newydd-ddyfodiaid y Sir yn derbyn cefnogaeth y Gyfundrefn Addysg Drochi ac yn meithrin sgiliau'r Gymraeg yn gynnar.<br>Swyddog Addysg Arfon (DJ)<br>Swyddog Addysg Meirion/Dwyfor (GapRh) |
| | Sicrhau rhaglen o hyfforddiant priodol ar gyfer staff CS yn athrawon a chymorthyddion yn maes trochi ieithyddol.<br>GwE/<br>Swyddog Addysg Arfon (DJ) |
| | Sicrhau y bydd y mwyafrif o'r ysgolion yn cychwyn cyflwyno'r Saesneg yn ffurfiol yn y tymor olaf ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.<br>GwE/<br>Swyddog Addysg Arfon (DJ) |
| | Y Gymraeg fydd iaith swyddogol yr asesu yn yr ysgol ar ddiwedd y cyfnod allweddol.<br>Swyddog Addysg Arfon (DJ) |
| | Darganfod gwaelodlin o ran sefyllfa'r Gymraeg yn y CS er mwyn deall anghenion y dysgwyr/gweithlu yn y sector yma. Ymateb i'r negeseuon ac yna ymgysylltu yn gyson i fonitro cynnydd gan addasu'r blaenoriaethau yn ôl y gofyn.<br>Swyddog Addysg Arfon (DJ) |
| | Llunio a sicrhau bod cynllun gweithredu manwl gyda thargedau pendant ar waith os neu ble mae'r disgwyliadau wedi llithro.<br>Swyddog Addysg Arfon (DJ) |
| Ystyried sut y bydd newidiadau arfaethedig i ddynodiadau ysgolion yn ôl eu darpariaeth yn effeithio ar ymrwymiad y Sir i gynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a dwyieithog/ffrwd ddeuol o fewn y Sir. | Bydd unrhyw gynlluniau newydd a gyflwynir, yn ddarostyngedig i ofynion y Polisi Iaith. Bydd rhai ysgolion penodol yn derbyn targedau penodol i sicrhau eu bod yn ehangu ar eu harlwy cyfrwng Cymraeg yn sgil gweithredu gofynion y Dynodiadau Iaith.<br>Cydlynydd Siarter Iaith/ Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd<br>Swyddog Addysg Arfon (DJ) |
| Sicrhau bod gofynion y Dynodiadau Iaith yn cael eu gweithredu, a chynlluniau cadarn mewn lle i gefnogi ble bydd angen. | Bydd gofynion y Dynodiadau Iaith yn cael eu gweithredu, a bydd yr holl weithlu addysg yn gyfrifol am lenwi Hunanasesiad Sgiliau Iaith yn flynyddol er mwyn diweddaru'n briodol i arddangos cynnydd. |

| | |
|---|---|
| | Cydlynydd Siarter Iaith/Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd<br>Swyddog Addysg Arfon (DJ) |
| Sicrhau bod trefniadaeth o ran darpariaeth newydd-ddyfodiaid i addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei chyfathrebu mewn modd clir ac effeithiol gyda rhieni a gofalwyr. | Sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion a rhieni ddeall a thrafod manteision dwyieithrwydd ac amlieithrwydd, gan arddel y Gymraeg, gan egluro beth yw'r manteision addysgol, cymdeithasol, diwylliannol a chael gwaith ac ennill arian o wneud hynny.<br>Negeseuon cyson a chlir yn cael eu rhannu gyda rhieni am drefn a gweledigaeth y Sir. Llawlyfr Gwybodaeth i Rieni yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru i atgyfnerthu'r prif negeseuon. |
| | Amlygu Polisi Iaith y Sir ym mhob trafodaeth gyda rhieni. Parhau i geisio ysbrydoli'n plant i wneud defnydd llawn o'u Cymraeg yn eu bywydau bob dydd gan egluro beth yw'r manteision addysgol, cymdeithasol, diwylliannol a chael gwaith ac ennill arian o wneud hynny.<br>Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg/Swyddog Addysg Arfon (DJ)/Penaethiaid ac athrawon ysgolion |
| | Anelu at newid agweddau / cynnal agweddau iach tuag at yr iaith a manteision dwyieithrwydd, gyda phob ysgol yn gyfrifol am gyflwyno a throsglwyddo'r neges pa mor werthfawr ydy siarad Cymraeg a'r fantais sydd yna o fod yn hyfedr ddwyieithog.<br>Cydlynydd Siarter Iaith/Cydlynwyr Iaith Dalgylchol/Swyddog Addysg Arfon (DJ)/Mentrau Iaith |
| | Bwrdd Prosiect Deilliant 2 i drafod ac adrodd yn ôl i'r Fforwm Iaith.<br>Swyddog Addysg Arfon (DJ)/Bwrdd Prosiect Deilliant 2 |
| | Sicrhau bod digon o adnoddau deniadol o safon ar gael ar wahanol ffurfiau a phlatfformau i ddiwallu anghenion y CS ac i hybu patrymau iaith a datblygiad y Gymraeg y nein dysgwyr ieuengaf.<br>GwE |

## Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

Ar ddiwedd ein cynllun deng mlynedd fe ddylai'r Gwasanaeth fod yn arddangos twf yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, sydd yn caniatáu i bob disgybl ddatblygu'n hyfedr ddwyieithog. Bydd newydd-ddyfodiaid y Sir yn elwa o gyfundrefn addysg drochi aroloesol, sydd yn hyblyg ac yn darparu addysg drochi gyfoes o'r radd flaenaf, gan feithrin eu sgiliau yn y Gymraeg i'w galluogi i lwyddo a ffynnu yn ein hysgolion gan ddod yn siaradwyr hyfedr ddwyieithog.

## Data Allweddol

Nid oes rhagolwg pellach na 2023/24 ar gael gan nad oes unrhyw ddata genedigaethau ar gael.  Gellir nodi fod y genedigaethau yn gyffredinol is – gyda 1300 genedigaeth wedi'u cofnodi yn 2022.

| Niferoedd a % y plant 5 oed sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2022 - 2023 | 2023 - 2024 | 2024 - 2025 | 2025 - 2026 | 2026 - 2027 |
| 1105 | 1019 | | | |
| 2027 - 2028 | 2028 - 2029 | 2029 - 2030 | 2030 - 2031 | 2031 - 2032 |
| | | | | |

## Deilliant 3

### Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall

### Ble rydym ni nawr?

Bydd Cydlynwyr Iaith pob Clwstwr o fewn y Sir yn atebol i Gydlynydd Siarter Iaith a Chydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd yr Awdurdod. Fe fydd yn aelod o staff o blith ysgolion cynradd neu ysgol uwchradd o fewn y dalgylchoedd. Bydd yn annog a sbarduno trafodaeth fydd yn sicrhau cydweithio rhwng yr holl ysgolion, gan sicrhau llinellau clir o gyfathrebu wrth ddod i benderfyniadau. Bydd y Cydlynydd Clwstwr yn mynychu Cyfarfod Clwstwr tymhorol, fydd wedi'u trefnu gan yr Awdurdod, ac a fydd yn cael eu mynychu gan GwE, gan adrodd yn ôl i berson cyswllt ym mhob ysgol gynradd, a'r ysgol uwchradd, am gynnwys trafodaethau a phenderfyniadau. Bydd y Cydlynydd Clwstwr yn hybu cydweithio, yn unol â deilliannau Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) yr Awdurdod.

Disgwylir i holl sefydliadau addysg y sir adlewyrchu ac atgyfnerthu'r Polisi Iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd. Rhoddir pwyslais yn y Polisi Iaith ar ddwyieithrwydd a'r angen i osod sylfeini cadarn ar gyfer y Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar a datblygu ar hyn yn y cyfnodau allweddol sy'n dilyn. Rydym yn edrych ar ffyrdd y gall ysgolion cynradd ac uwchradd gydweithio mewn partneriaeth agos i dargedu rhieni/gofalwyr er mwyn hyrwyddo dilyniant ieithyddol, ac yn sicrhau bod yr holl staff sy'n debygol o ddod i gysylltiad gyda rhieni yn ymwybodol o'r negeseuon allweddol ynghylch addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a dilyniant ieithyddol i allu ateb cwestiynau all godi.

<u>Ein sefyllfa bresennol yn ymwneud â mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall</u>.
O ganlyniad i bandemig Covid-19 nid oes data ar gael ar gyfer 2019/20 na 2020/21.

| | | |
|---|---|---|
| 2018-19 | Dysgwyr blwyddyn 9 yn cael eu hasesu yn Y Gymraeg (Iaith Gyntaf) | 84.5% |
| 2018-19 | Dysgwyr Cyfnod Sylfaen yn ennill Deilliant 5+ Y Gymraeg (asesiadau athro) | 78.8% |
| 2018-19 | Dysgwyr CA2 yn ennill Lefel 4+ Y Gymraeg Iaith Gyntaf (asesiadau athro) | 86.9% |
| 2018-19 | Dysgwyr CA3 yn ennill Lefel 5+ Y Gymraeg Iaith Gyntaf (asesiadau athro) | 91.9% |
| 2018-19 | Dysgwyr CA3 yn ennill Lefel 5+ Y Gymraeg Ail Iaith (asesiadau athro) | 77.1% |

### Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

Byddwn yn cynllunio'n briodol i sicrhau bod disgyblion a addysgir yn ddwyieithog yn parhau i gael eu haddysgu felly wrth drosglwyddo o un grŵp blwyddyn i grŵp blwyddyn arall. Byddwn yn cydweithio gyda'r ysgolion i sicrhau fod disgyblion yn dilyn trywydd ieithyddol sy'n ddatblygiad naturiol o un flwyddyn i'r llall ac o un cyfnod allweddol i'r llall, ac yn monitro hyn yn ofalus. Byddwn yn trafod ac adnabod ar y cyd gyda'r ysgolion, gyfleoedd i gynyddu'r gyfran o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sy'n cael ei chynnig gan osod targedau sydd yn gyraeddadwy i'w cyflawni ac sy'n eu gallugoi i gyflawni gofynion Dynodiad Iaith yr ysgol.

| EIN PRIF AMCANION I GYFLAWNI'N DEILLIANNAU | SUT Y BYDDWN YN CYFLAWNI'N HAMCANION |
|---|---|
| Sicrhau cysondeb traws sirol drwy sicrhau fod pob disgybl sydd wedi ennill lefel 3+ yn y Gymraeg ar ddiwedd CA2 yn parhau gyda'r Gymraeg fel Iaith Gyntaf yn B7 ac yn cael asesiad Cymraeg Iaith Gyntaf ar ddiwedd CA3, a thrwy hynny, cynyddu'r % a asesir yn y Gymraeg fel Iaith Gyntaf ar ddiwedd CA3, gan ddylanwadu'n gadarnhaol ar y % sydd yn symud ymlaen i sefyll arholiad TGAU yn y Gymraeg Iaith Gyntaf. | Monitro a sicrhau cysondeb ar draws yr ysgolion er mwyn sicrhau cynnydd yn y % a asesir yn y Gymraeg fel Iaith Gyntaf ar ddiwedd CA3.<br>Cydweithio gyda ysgolion penodol i sicrhau parhad ieithyddol o GA2 i GA3.<br>Cydlynwyr Iaith/<br>Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd/<br>Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ) |
| Cynyddu nifer canran y disgyblion sy'n parhau i wella'u sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall yn ystod y pum mlynedd cyntaf o weithredu'r Cynllun (fel carreg filltir hanner ffordd) ac un arall ar gyfer gweddill y Cynllun. | Sicrhau bod disgyblion yn derbyn cefnogaeth briodol i ddatblygu'u sgiliau Cymraeg.<br>Sicrhau mynediad at Gyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd, fydd yn cynnig addysg o'r safon uchaf o flwyddyn 2 ymlaen. Bydd cefnogaeth dilynol priodol i unrhyw ddisgybl sy'n newydd ddyfodiad CA2/CA3 i'r sir.<br>Swyddog Addysg Meirion/Dwyfor (GApRh)<br>Swyddog Addysg Arfon (DJ)/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ) |
| Cynyddu canran disgyblion Y Cyfnod Sylfaen enillodd ddeilliant 5+ ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg (Llafaredd) (Lefel 2+/Deilliant 5+) | Monitro'n fanwl ac yn gyson safonau yn ein hysgolion ac yn gosod a gwirio targedau ar ddeilliannau a lefelau uwch.<br>Cydlynydd Siarter Iaith/ Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ GwE- Ymgynghorydd Craidd Cynradd/<br>Swyddog Addysg Arfon (DJ)/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ) |
| Cynyddu canran disgyblion CA2 enillodd lefel 4+ ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg (Llafaredd) | Dadansoddi data profion darllen cenedlaethol ac asesiadau athrawon, a rhannu arferion da ar gyfer addysgu, cyd addysgu, modelu, hyfforddi, monitro, paratoi a chynhyrchu adnoddau.<br>Cydlynydd Siarter Iaith/ Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ GwE- ymgynghorydd craidd cynradd/ |

| | |
|---|---|
| | Swyddog Addysg(DJ)/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ) |
| Cynyddu canran disgyblion CA3 enillodd lefel 5+ ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg (Llafaredd) | Dadansoddi data asesiadau athrawon ac yn rhannu arferion da ar gyfer addysgu, cyd addysgu, modelu, hyfforddi, monitro, paratoi a chynhyrchu adnoddau.<br>Cydlynydd Siarter Iaith/ Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ GwE- Ymgynghorydd Craidd Uwchradd/<br>Swyddog Addysg(DJ)/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ) |
| | Sicrhau y bydd newydd-ddyfodiaid yn derbyn addysg o'r safon uchaf fel rhan o Gyfundrefn Addysg Drochi'r Sir a cefnogaeth briodol i gefnodi unrhyw ddisgybl all fod angen hwb ychwanegol i gynyddu ei hyder'sgiliau yn y Gymraeg.<br>Swyddog Addysg Arfon (DJ), Swyddog Addysg Meirion/Dwyfor (GapRh) |
| | Darparu rhaglen safonol o HMS/DPP sydd o ansawdd uchel.<br>Cydlynydd Siarter Iaith/ Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd/<br>Swyddog Addysg(DJ)/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ) |
| | Adnabod plant o fewn ysgolion allai elwa o hwb ychwanegol i'w cefnogi i gyrraedd y trothwy lefel 5+.<br>Cydlynydd Siarter Iaith/ Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ GwE- Ymgynghorydd Craidd Uwchradd/<br>Swyddog Addysg(DJ)/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ) |

## Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

Bydd gweithredu ar y camau uchod yn dystiolaeth o gynnydd yn erbyn ein targedau. Bydd y cynnydd yn cael ei adolygu'n flynyddol ac yn sail i ymyrraethau a chamau gweithredu pellach i sicrhau gweithredu mewn modd sydd yn ymateb i dystiolaeth a geir. Bydd disgyblion y Sir yn elwa o gyfundrefn addysg drochi aroloesol, sydd yn hyblyg ac yn darparu addysg drochi gyfoes o'r radd flaenaf i'r dysgwyr, gan feithrin eu sgiliau yn y Gymraeg i'w galluogi i lwyddo a ffynnu yn ein hysgolion gan ddod yn siaradwyr hyfedr ddwyieithog.

## Data Allweddol

Mae'r data isod yn ddata 2018/19 gan nad oes data mwy cyfredol ar gael. Bydd cynnal y safonau isod yn flaenoriaeth.

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Niferoedd a % y dysgwyr sy'n parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall | | | | | | | | | |
| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
| CS/CA2 | 98.3% | | | | | | | | |
| CA2/CA3 | 86.9% | | | | | | | | |
| CA3/CA4 | 84.5% | | | | | | | | |
| 2027 - 2028 | | 2028 - 2029 | | 2029 - 2030 | | 2030 - 2031 | | 2031 - 2032 | |
| | | | | | | | | | |

| DEILLIANT 3: CYNLLUN GWEITHREDU STRATEGAETH IAITH UWCHRADD | |
|---|---|
| Cryfhau pontio o'r cynradd i'r uwchradd i sicrhau dilyniant pwrpasol i waith y Siarter Iaith. | Peilota cynllun pontio gyda blynyddoedd 5 a 6 yn yr ysgolion cynradd. Gweithio ar gynllun gydag Adran Y Gymraeg yn yr Ysgolion Uwchradd i hybu'r dilyniant o un Cyfnod Allweddol i'r llall. Darn o waith ymchwil i weld beth sydd yn achosi'r problemau, a pham fod rhai eisiau gwneud 'Ail Iaith' ar ôl trosglwyddo. Defnyddio'r data a gesglir fel sail i lunio cynllun gweithredu fydd yn targedu hynny, ac yn fodd i fesur unrhyw gynnydd neu sgil effeithiau posib. |
| Dilyniant Y Gymraeg | Ystyried yn union beth yw rôl Cydlynydd y Strategaeth yn y broses o fonitro hyn a sut mae gwneud hynny mewn modd effeithiol? Angen edrych ar y data a thargedu ble mae angen. Yw hyn yn fwy 'cwricwlaidd' nag o ddefnydd anffurfiol fel sy'n rhan o'r Strategaeth? Angen eglurder ar hyn. |
| Hybu'r Gymraeg mewn modd cadarnhaol. | Ystyried sut y gellir cydweithio gyda'r Siarter Iaith er mwyn hybu'r ddelwedd o'r Gymraeg – targedu blynyddoedd 4, 5 a 6? Meddwl am farchnata'r iaith mewn ffordd fydd yn dylanwadu ar y disgyblion ac yn cael ei wreiddio a'i gynnal wedi mynd i'r Uwchradd. Cynnal grwpiau ffocws efo grwpiau mewn ysgolion er mwyn clywed barn a gweithredu ar hynny. Ystyried cynnal digwyddiad i ail-danio diddordeb a sbarduno'r diddordeb unwaith eto. |
| | |
| **DEILLIANT 3: CYNLLUN GWEITHREDU SIARTER IAITH** | |

| | |
|---|---|
| Uwchsgilio'r gweithlu gan feithrin hyder disgyblion i ddefnyddio a datblygu'u sgiliau llafar ar draws yr ysgol. | Rhannu gwybodaeth/ trosolwg o'r disgwyliadau sirol/bwriadau cenedlaethol/ gofynion Estyn ynghlwm â'r Gymraeg mewn cyflwyniad pwerbwynt. Sicrhau hyfforddiant uwchsgilio'r gweithlu a methodoleg trochi effeithiol er mwyn meithrin hyder disgyblion i ddefnyddio a datblygu'u sgiliau llafar ayyb (Tybed a fyddai neges 'byw' neu neges wedi'i recordio gan Dyfrig Ellis AEM, ynglŷn â chyfeiriad Estyn ar lafaredd Cymraeg yn neges bwerus i'w throsglwyddo i benaethiaid? (mi fydda'r neges yna wedyn hefyd yn HWB er mwyn atgoffa staff ar gyfer y dyfodol) |
| Casglu a dadansoddi data ynglŷn â defnydd iaith a medrau llafar Cymraeg. | Penaethiaid yn ymrwymo i weithredu cynllun datblygu llafaredd. Ysgolion yn adnabod tirwedd ieithyddol eu hysgolion trwy gasglu a dadansoddi data o'r holiaduron gwe iaith |
| Uwchsgilio'r gweithlu a chefnogi'r gweithredu trwy sicrhau adnoddau pwrpasol. | Uwchsgilio'r gweithlu i weithredu technegau methodoleg trochi effeithiol (sesiwn ar gyfer holl weithlu'r ysgolion sydd wedi ymrwymo i weithredu'r cynllun datblygu llafaredd) |
| Rhannu profiadau ac arferion effeithiol ac olrhain effaith unrhyw weithredu. | Amserlennu a gweithredu'r cynllun datblygu llafaredd-ysgolion peilot yn rhannu'u profiadau ar arferion effeithiol a sicrhau cydweithrediad holl staff yr ysgol (dau sesiwn rhithiol ar gyfer cydgysylltwyr iaith yr ysgolion)<br><br>Olrhain effaith y gweithredu a rhannu'r arferion gorau mewn cyfarfod rhwng Cydlynwyr iaith yr ysgolion cynradd/uwchradd. yn rhannu'u bwriadau a thrafod y drefn mwyaf efeithiol o olrhain effaith y gwaith a rhannu'r arferion gorau. Adrodd yn ôl ar weithredu dalgylchol yn dymhorol-cynradd/uwchradd ayyb |
| Sicrhau cyswllt cynradd/uwchradd gan rannu'r arferion gorau. | Sesiwn cynnal momentwm- sesiwn fyddai yma i rannu syniadau newydd a rhannu'r arferion gorau/mwyaf effeithiol rhwng holl ysgolion y Sir- cyswllt cynradd/uwchradd |

# Deilliant 4

## Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg

### Ble rydym ni nawr?

Sicrheir cefnogaeth i newydd-ddyfodiaid barhau i ddatblygu eu sgiliau iaith a'u hyfedredd yn y Gymraeg, gan gynnwys astudio cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.  Disgwylir i bob disgybl sydd wedi cyrraedd lefel 3 cadarn ar ddiwedd CA2 ddilyn Rhaglen Astudio Cymraeg [Iaith Gyntaf] er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad priodol. Yn ychwanegol, mae angen sicrhau bod pob disgybl yn astudio'r Gymraeg fel pwnc hyd at ddiwedd B11 ac yn sefyll profion ac arholiadau allanol priodol ar ddiwedd CA3 a CA4.

Ein sefyllfa bresennol yn ymwneud â mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg:

O ganlyniad i bandemig Covid-19 nid oes data ar gael ar gyfer 2019/20 na 2020/21.

| | | |
|---|---|---|
| 2018/19 | Dysgwyr gofrestrwyd i wneud TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf) a chofrestru ar gyfer o leiaf dau gymhwyster pellach drwy gyfrwng y Gymraeg. | 78.1% |
| 2018/19 | Dysgwyr gofrestrwyd i wneud TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf) a chofrestru ar gyfer o leiaf pump cymhwyster pellach ar lefel 1 neu lefel 2 drwy gyfrwng y Gymraeg. | 64.2% |
| 2018/19 | Dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 enillodd raddau A*-C mewn TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf | 70.7% |

### Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

Bydd cynnydd yn niferoedd y dysgwyr gofrestrwyd i wneud:

- TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf);
- cymhwysterau pellach drwy gyfrwng y Gymraeg;
- cymhwysterau pellach galwedigaethol ar lefel 1 neu lefel 2 drwy gyfrwng y Gymraeg; a
- chynnydd yn nifer y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 enillodd raddau A*-C mewn TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf.

Bydd pob ysgol yn ymateb i dargedau i gyrraedd y cynnydd, a bydd cynhaliaeth briodol yn cael ei chynnig a'i monitro'n gyson i'w galluogi i gyflawni'r cynnydd.

| EIN PRIF AMCANION I GYFLAWNI'N DEILLIANNAU | SUT Y BYDDWN YN CYFLAWNI'N HAMCANION |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Cynyddu ymhellach ganran y disgyblion sy’n parhau i astudio’u pynciau drwy’r Gymraeg neu’n ddwyieithog yn CA4 hyd at sefyll arholiadau allanol | Sicrhau bod yr holl ysgolion yn ymateb i ofynion y Mesur Dysgu a Sgiliau ac wedi manteisio ar bartneriaethau cydweithredol. Sicrhau bydd staff addysgol yn llenwi Holiadur Sgiliau Iaith yn flynyddol, ar ddechrau blwyddyn addysgol i ddiweddaru’r data er mwyn cynllunio hyfforddiant a chefnogaeth briodol i wireddu hyn.<br>Cydlynydd Addysg Ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn/ Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd/<br>Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ) |
| | Parhau i geisio gwella a chodi safonau’n y Gymraeg. Bydd disgwyl i bob ysgol uwchradd ddefnyddio’r carfanau iaith i gynllunio’n ieithyddol ar gyfer defnyddio’r Gymraeg fel cyfrwng dysgu.<br>Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd/<br>Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ) |
| Sicrhau bod Cyrsiau Galwedigaethol Cydweithredol a ariennir trwy grant Rhwydwaith 14-19 ar gael yn y Gymraeg/dwyieithog [gan gynnwys unrhyw gyrsiau a ddarperir gan y Colegau] | Hyrwyddo datblygiad addysg ddwyieithog fel un o brif flaenoriaethau strategol y Rhwydwaith 14-19, gan sicrhau dilyniant ieithyddol priodol fel rhan greiddiol o gylch gorchwyl grwpiau gweithredol y Rhwydwaith.<br>Cydlynydd Addysg Ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn/ Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd/<br>Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ) |
| | Bydd disgwyl i bob cwrs 14-16 gaiff ei gyllido trwy’r grant fod ar gael yn ddwyieithog.<br>Cydlynydd Addysg Ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn/ Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd/<br>Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ) |
| | Blaenoriaeth i barhau i ddatblygu adnoddau e-ddysgu rhyngweithiol dwyieithog trwy waith Tîm e-ddysgu'r Rhwydwaith 14-19, a gyllidir trwy arian grant 14-19.<br>Cydlynydd Addysg Ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ) |
| | Gweithio gyda’r prif randdeiliaid i sicrhau bod yr arlwy a gynigir yn caniatau mynediad i ddarpariaeth ddwyieithog ar draws y pynciau galwedigaethol a Bagloriaeth Cymru yn CA4.<br>Cydlynydd Addysg Ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn/ Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd/<br>Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ) |
| Sicrhau bod y Grwpiau Partneriaeth ac Is-grŵp Ansawdd Rhwydwaith 14-19 yn monitro dilyniant ieithyddol y cyrsiau a ddarperir. | Arwain y gwaith cynllunio strategol Ôl-16 yng nghyd-destun gofynion agenda Trawsnewid gan y Bartneriaeth Ddysgu 16+. Bydd adnabod effaith tebygol model cydweithredol ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg/dwyieithog yn un o’i brif ffrydiau gwaith.<br>Cydlynydd Addysg Ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn / Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ) |
| | Rhoi sylw i adnabod y prif ffactorau sy’n dylanwadu ar ddewis cyfrwng dysgu 16+.<br>Cydlynydd Addysg Ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn / Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ) |

<table>
<tr><td></td><td>Monitro data cofrestriadau ar gyfer arholiadau allanol trwy gyfrwng y Gymraeg o bob sefydliad (yn cynnwys cyrsiau partneriaeth Alwedigaethol yn y Colegau) a gosod Targedau Cynnydd i bob sefydliad / cwrs partneriaeth.<br>Cydlynydd Addysg Ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn / Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Monitro cyfrwng iaith astudiaethau dysgwyr CA4 a CA5.</td><td>Cefnogi ysgolion uwchradd i gynyddu nifer y cymwysterau y gall dysgwyr eu hastudio drwy gyfrwng y Gymraeg.<br>Cydlynydd Addysg Ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn/ Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd/<br>Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)</td></tr>
<tr><td>Gweithio gydag adrannau'r Gymraeg yn yr ysgolion gan roi sylw i ostwng y niferoedd nad sy'n sefyll y Gymraeg fel iaith gyntaf ac/neu ail iaith, er mwyn sicrhau nad oes un disgybl yn gadael yr un o'r ysgolion yn 16 oed heb gymhwyster cydnabyddedig yn y Gymraeg.<br>Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd/<br>Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)</td></tr>
<tr><td>Cefnogi Adrannau Iaith yr ysgolion i gefnogi disgyblion i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg</td><td>Cydweithio i gefnogi datblygiad sgiliau Cymraeg i sicrhau bod pob disgybl yn parchu pob iaith a dealltwriaeth o iaith. Gweledigaeth y Strategaeth Iaith Uwchradd yn glir o fewn yr adrannau wrth weithredu disgwyliadau i ddisgyblion ddilyn rhaglen Cymraeg Iaith Gyntaf sy'n ddilyniant effeithiol o un cyfnod allweddol i'r llall.<br>Sicrhau profiadau cwricwlaidd fydd yn adeiladu, dangos cynnydd ac yn ddilyniant o un Cyfnod Allweddol i'r llall.<br>Sicrhau cefnogaeth effeithiol i rieni drwy hyrwyddo manteision addysgol dwyieithrwydd, a chreu cyswllt cadarn â'r gymuned, i gyflwyno'r Gymraeg mewn modd adeiladol a chadarnhaol a chroesawgar.<br>Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg, Cefnogaeth Gorfforaethol/ Swyddog Addysg Arfon (DJ)/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)/Staff Ysgolion</td></tr>
<tr><td>Cynyddu canran disgyblion CA4 sy'n cyrraedd graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg</td><td>Monitro canran y disgyblion ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 sy'n cyrraedd graddau A* i C mewn TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf a gosod targedau ar gyfer ysgolion:<br><table><tr><th>Sefyllfa gyfredol</th><th>2018/2019</th><th>2019/2020</th><th>2020/2021</th></tr><tr><td>76.3%</td><td>78.1%</td><td>79%</td><td>DIM DATA AR GAEL</td></tr></table>Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ Ymgynghorwyr GwE/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)</td></tr>
<tr><td>Cydweithio ag ysgolion i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chynnig fel pwnc Safon Uwch mewn ysgolion, gan gefnogi ysgolion i</td><td>Cydweithio ag ysgolion i hyrwyddo manteision astudio'r Gymraeg fel pwnc ymhlith disgyblion a rhieni/gofalwyr<br>Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd/<br>Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| gynnal dosbarthiadau llai os oes rhaid er mwyn diogelu'r pwnc. | Gwneud defnydd o gynnwys ymgyrchoedd i annog mwy i ystyried Cymraeg fel Safon Uwch ar wahanol gyfryngau.<br>Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd/<br>Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ) |
| | Ceisio annog disgyblion i barhau gyda'r Gymraeg hyd Safon Uwch, drwy bwysleisio manteision y Gymraeg fel pwnc i'w astudio ymhellach yn dilyn TGAU.<br>Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd/<br>Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ) |
| | Ceisio gwneud y pwnc yn apelgar a pherthnasol i ddisgyblion – drwy sicrhau dulliau dysgu ac addysgu amrywiol a defnydd effeithiol o adnoddau perthnasol yn yr ysgolion.<br>Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd/<br>Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ) |
| Sicrhau nad oes yr un disgybl yn gadael yr un o'r ysgolion heb gymhwyster cydnabyddedig yn y Gymraeg | Monitro cofrestriadau ysgolion, a darparu ôl-ofal priodol i gynnig cefnogaeth i hwyr-ddyfodiaid i gynnal eu sgiliau yn yr ysgolion, a monitro cofrestriadau ysgolion.<br>Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ Ymgynghorwyr GwE/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ) |

| **DEILLIANT 4: CYNLLUN GWEITHREDU STRATEGAETH IAITH UWCHRADD** | |
|---|---|
| Cryfhau pontio a sicrhau dilyniant ieithyddol: | Cydweithio ar gynllun pontio tebyg i'r un a nodir yn neilliant 3, gan ganolbwyntio ar flynyddoedd 8 a 9. Grwpiau Ffocws i weld beth yw'r gofidiau/anawsterau maen nhw'n poeni amdanynt. Ystyried sut mae cryfhau'r neges o ran manteision dwyieithrwydd. Ystyried a oes modd cryfhau'r cysylltiad gyda'r cartref. Gweithio gydag adrannau penodol o fewn ysgolion all fod angen cymorth i'w cefnogi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Anghenion hyfforddiant – sut hyfforddiant sydd ei angen, a monitro deilliannau unrhyw hyfforddiant a gynigir. Eglurder o ddisgwyliadau'r Awdurdod o ran ysgolion gosod targedau i ysgolion parthed gweithredu Polisi Iaith y Sir. |
| Cyrsiau Galwedigaethol | Sefydlu a chynnal partneriaeth gyda'r Darparwyr. Monitro'r ddarpariaeth ieithyddol, sefydlu cytundeb gwasanaeth sy'n driw i Bolisi Iaith y Sir. Eglurder o ran beth yw'r ddarpariaeth i gael ei chyfathrebu'n glir gyda rhieni a disgyblion. |
| Y Gymraeg (Safon Uwch) | Agenda genedlaethol – sut mae hyn yn berthnasol i Wynedd? Angen codi ymwybyddiaeth a marchnata'r pwnc. Unwaith eto, gwrando ar Lais y Disgyblion o ran beth |

| | |
|---|---|
| | sy'n apelio a beth nad sy'n apelio atynt, ac ystyried sut mae gweithredu ar hynny. |

## Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

Byddwn yn anelu i adfer a chynnal safonau trwy dargedu yr anghenion penodol sydd yn cael eu hamlygu, ac olrhain effaith y gweithredu i gydymffurfio gyda nod Polisi Iaith y Sir. Bydd dylanwad gadarnahaol y Gyfundrefn Addysg Drochi'n y Sir wedi'i gwreiddio a bydd effaith gadarnhaol i'w weld ar gynnydd y disgyblion.Bydd cynnydd amlwg yn niferoedd y dysgwyr fydd yn  astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Data Allweddol

Fe welir bod maint y cohort sydd yn astudio Cymraeg Iaith Gyntaf yn sylweddol uwch yng Ngwynedd. Mae'r data isod yn ddata 2018/19 gan nad oes data mwy cyfredol ar gael. Bydd cynnal y safonau isod yn flaenoriaeth, ac fe fydd targedau yn cael eu pennu yn dilyn trafodaethau gyda'r ysgolion.

| % disgyblion (Cymraeg Iaith Gyntaf)  ar ddiwedd CA4 sy'n cyrraedd graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf | |
|---|---|
| PERFFORMIAD 2019 | 70.7% |

| % disgyblion(Ail Iaith) ar ddiwedd CA4 sy'n cyrraedd graddau A*-C mewn TGAU Ail Iaith (Cwrs Hir) | |
|---|---|
| PERFFORMIAD 2019 | 97.7% |

| Niferoedd a % y dysgwyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau  Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
| | | | | | | | | | |
| 2027 - 2028 | | 2028 - 2029 | | 2029 - 2030 | | 2030 - 2031 | | 2031 - 2032 | |
| | | | | | | | | | |

## Deilliant 5

### Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol

### Ble rydym ni nawr?

Cyflawnir prif amcanion y Siarter Iaith a'r Strategaeth Iaith Uwchradd trwy:

- gefnogi datblygiad sgiliau i allu defnyddio'r Gymraeg
- drwytho'r dysgwyr mewn agweddau cadarnhaol o safbwynt Y Gymraeg
- cynnig cyfleoedd i ddenyddio'r Gymraeg mewn ystod o sefyllfaoedd
- greu awydd i fod eisiau defnyddio'r Gymraeg

Mae ymroddiad a pherchnogaeth y tîm arweinyddiaeth ym mhob ysgol yn gadarn o'i phlaid ac â disgwyliadau uchel o safbwynt ei gweithredu.  Mae strwythur staffio'r ysgolion yn nodi cyfrifoldebau ac atebolrwydd clir am weithrediad gwahanol agweddau o fywyd ysgol sy'n ymwneud â'r Gymraeg, mewn partneriaeth â'r gymuned ehangach er mwyn sicrhau perchnogaeth lawn ohoni.

Cynllunia pob ysgol yn fwriadus i gynnig cyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i'r disgyblion ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol. Cefnogir pob cyfle i'r disgyblion ddefnyddio neu ymarfer yr iaith a'u cynorthwyo i sylweddoli bod byd cymdeithasol a diwylliannol cyfoethog yn gysylltiedig â'r Gymraeg. Defnyddir data o Hunanasesiad Iaith Gymraeg y gweithlu i sicrhau fod unrhyw anghenion hyfforddi yn cael eu diwallu er mwyn cefnogi sgiliau llafar y disgyblion.

Caiff y Gwe Iaith ei gwblhau ddwy waith yn ystod blwyddyn addysgol.  Gwneir defnydd o'r data i ganfod gwaelodlin o batrymau ac arferion ieithyddol dysgwyr oddi fewn a thu allan i furiau'r ysgol.  Gwneir defnydd o'r data ynglŷn a'u hagweddau a'u hyder i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer camau gweithredu pellach.  Ni fu'n bosib i ysgolion gwblhau y Gwe Iaith o ganlyniad i'r Cyfnod Clo.  Ni fu'n bosib defnyddio canlyniadau'r gwe i fesur effaith ymyrraethau'r flwyddyn ar ddefnydd cymdeithasol dysgwyr o'r Gymraeg, gan fod cwestiynau'r gwe iaith yn ymwneud asefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol dysgwyr yn yr ysgol. O ganlyniad, mae'r data yn anghyflawn am 2019-2020.

Yn sgil y Cyfnod Clo, nid oedd modd gweithredu ymrwymiadau hunanarfarniadau'r ysgolion mewn ymateb i'r Siarter Iaith a'r Strategaeth Iaith Uwchradd.  Drwy gefnogaeth cyllidol gan Lywodraeth Cymru drwy'r consortia rhanbarthol, cyd-gynlluniwyd ymyraethau ar lefel clwstwr (cynradd ac uwchradd) i gryfhau defnydd cymdeithasol disgyblion o'r Gymraeg, ynghyd ag ymateb i anghenion sgiliau iaith y gweithlu addysg.  Bu i rai clystyrau lwyddo i weithredu eu cynlluniau fel y bwriadwyd, ond ni fu hyn yn bosib ar draws pob clwstwr o fewn y Sir.

Arallgyfeiriwyd cefnogaeth y Cydlynwyr Siarter Iaith a Strategaeth Iaith Uwchradd drwy greu adnoddau addysgol i gefnogi'r Gymraeg yn sirol, rhanbarthol a chenedlaethol, gan ganolbwyntio'n bennaf ar hybu'u sgiliau Llafaredd.  Comisiynwyd ymgynghorydd llawrydd i

greu clipiau fideo ar gyfer y Cyfnod Sylfaen fel adnodd i annog defnydd o'r iaith lafar i ddysgwyr (yn arbennig o aelwydydd di-Gymraeg).

Bydd cefnogaeth gyllidol gan Lywodraeth Cymru drwy'r consortia rhanbarthol yn galluogi ysgolion i gyd-gynllunio ymyraethau ar lefel clwstwr (cynradd ac uwchradd) er mwyn cryfhau defnydd cymdeithasol dysgwyr o'r Gymraeg, ynghyd ag ymateb i anghenion sgiliau iaith y gweithlu addysg. Bydd yr ysgolion yn ceisio sicrhau bod eu cynlluniau yn ceisio ymateb i sefyllfa'r Gymraeg yn y clwstwr yn sgil y Cyfnod Clo.

Yn sgil pandemig Covid-19, nid oes data meintiol ar gael i'w gynnwys yma. Byddwn yn defnyddio data canlyniadau'r Gwe Iaith i fesur cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg ymhlith ein disgyblion.

## Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

Gweler ein cynllun gweithredu isod:

| EIN PRIF AMCANION I GYFLAWNI'N DEILLIANNAU | SUT Y BYDDWN YN CYFLAWNI'N HAMCANION |
|---|---|
| Parhau gyda gwaith y Siarter Iaith a'r Strategaeth Iaith i arwain at gynnydd pellach yn nefnydd cymdeithasol a chwricwlaidd disgyblion o'r Gymraeg. | Datblygu ymhellach rôl y Siarter Iaith a'r Strategaeth Iaith gan sicrhau bod negesuon a gwybodaeth perthnasol ynglŷn â chyflawni'u gofynion yn cael eu gweithredu'n effeithiol yn yr ysgolion.<br>Cydlynydd Siarter Iaith/ Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd/<br>Swyddog Addysg Arfon (DJ)/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ) |
| | Cynnal cyfarfodydd tymhorol i rannu'r wybodaeth mwyaf diweddar efo'r cyd-gysylltwyr iaith ac yn annog yr ysgolion cynradd i wneud defnydd o ddeunyddiau a geir ar wefan y Siarter Iaith a sianeli Seren a Sbarc.<br>Cydlynydd Siarter Iaith/ Swyddog Addysg Arfon(DJ) |
| | Hyrwyddo ymhellach werth a manteision a defnyddioldeb dwyieithrwydd er mwyn cryfhau cymhelliant disgyblion i ddatblygu'n bersonau rhugl yn y ddwy iaith.<br>Cydlynydd Siarter Iaith/ Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd/<br>Swyddog Addysg Arfon (DJ)/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ) |
| | Hyrwyddo defnydd cymdeithasol plant a phobl ifanc o'r Gymraeg yn yr ysgol ac yn y gymuned.<br>Cydlynydd Siarter Iaith/ Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd/<br>Swyddog Addysg Arfon (DJ)/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)<br>Hunaniaith<br>Byw'n Iach<br>Urdd |

| | |
|---|---|
| | Ffermwyr Ifanc<br>Gwasanaeth Ieuenctid |
| | Mapio'r ddarpariaeth gyfredol sydd ar gael i blant oed ysgol ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg y tu allan i'r dosbarth a'r ysgol drwy weithio mewn partneriaeth â gwasanaethau ieuenctid megis Yr Urdd a Menter Iaith.<br>Cydlynydd Siarter Iaith/ Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd/<br>Swyddog Addysg Arfon (DJ)/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)<br>Rhanddeiliaid - gweler uchod |
| Cyngor Iaith yn gweithredu mhob ysgol ac yn glir o'u rôl a'u dyletswyddau. | Sicrhau bod llais y disgybl yn ganolog yn y cynlluniau i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol.<br>Defnyddio data'r Gwe Iaith fel gwaelodlin wrth gytuno ar gamau gweithredu.<br>Datblygu rôl arweinwyr a llysgenhadon iaith yn yr ysgol gyda disgwyliadau penodol.<br>Cynnal a hyrwyddo digwyddiadau diwylliannol Cymraeg yn yr ysgol.<br>Cyd-gynllunio i boblogeiddio'r Gymraeg fel cyfrwng ar y cyfryngau cymdeithasol.<br>Cydlynydd Siarter Iaith/ Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd/<br>Swyddog Addysg Arfon (DJ)/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)<br>Staff Ysgolion |
| Gweithgareddau wedi'u trefnu i hyrwyddo'r Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen. | Trefnu amserlen o weithgareddau i hybu'r iaith ac i ennyn bwrlwm yn y Gymraeg mewn Addysg yn y CS.<br>Cydlynwyr iaith /Mentrau Iaith/ Cefnogaeth Gorfforaethol / Cydlynydd Siarter Iaith/ Swyddog Addysg Arfon (DJ) |
| Manteisio ar gyfleoedd yn yr ysgol gynradd ac uwchradd i gydweithio gydag asiantaethau allanol i hybu defnydd o'r iaith Gymraeg. | Cydweithio gydag asiantaethau allanol/cenedlaethol i hybu chwaraeon a chyfleoedd celfyddydol drwy gyfrwng y Gymraeg.<br>Cydlynydd Siarter Iaith Cynradd/Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd |

| **DEILLIANT 5: CYNLLUN GWEITHREDU STRATEGAETH IAITH UWCHRADD** | |
|---|---|
| Cryfhau rôl y Cydlynwyr Iaith. | Sicrhau bod strwythur clir i rôl Cydlynwyr Iaith i sicrhau rhaglen o weithgareddau pwrpasol, yn atebol i ddeilliannau'r CSGA. Arferion da i gael eu rhannu ymysg dalgylchoedd – angen am fwy o atebolrwydd a strwythur clir wrth gynllunio ar gyfer gwariant unrhyw grant posibl ddaw o du'r Llywodraeth. Bydd hynny yn osgoi cynllunio heb weledigaeth a phwrpas clir. |
| Cryfhau Llais y Disgybl | Beth yn union maen nhw'n ei deimlo all ddylanwadu arnynt? Annog cydweithio rhwng ysgolion o fewn y Sir – er mwyn rhannu arferion da a chreu cysylltiadau fydd yn hybu |

| | |
|---|---|
| | defnydd o'r iaith. Ystyried a oes lle i ymestyn y tu hwnt i ffiniau'r Sir? Sut? |
| Rôl Llysgenhadon Iaith | Ail sefydlu a chryfhau system o Lysgenhadon Iaith yn yr ysgolion. Statws i'r rôl, yn union fel statws Swyddogion. Gwrando ar syniadau gan ddisgyblion i weld sut gallai hyn edrych – pa fodel fyddai orau? Creu ymdeimlad o gyfrifoldeb tuag at yr iaith ac i ddylanwadu ar rai iau yn yr ysgol. Archwilio'r posibilrwydd o gyd-weithio gydag ysgolion cynradd? Potensial ar gyfer hynny yn sicr. |
| | |
| **DEILLIANT 5: CYNLLUN GWEITHREDU SIARTER IAITH** | |
| Hybu cydweithio a chynllunio dalgylchol er mwyn ehangu'r mynediad at ddiwylliant Cymraeg a Chymreig.<br><br>Magu mwynhad at weithgareddau trwy gyfrwng Y Gymraeg | Hybu ymagweddau cadarnhaol tuag at ddefnyddio a mwynhau'r Gymraeg-ystyried cynnal gweithdai creu podlediadau;gweithdai creu clipiau ffilm, rhaglenni radio, gweithgareddau flogio'n ddalgylchol; Cynllun Ynni Da- hyrwyddo Cerddoriaeth Cymraeg dros Y We gyda fideos arbennig ar gyfer disgyblion ysgol, gweithdai cerddoriaeth, ukulele neu gyfansoddi/sesiynau rhithiol yn cynnig sesiynau , actio, sgriptio, chwarae rôl. |
| Cryfhau'r berthynas o gydweithio a sgwrsio'n anffurfiol rhwng disgyblion cynradd/uwchradd | Adnabod sut y gall iaith disgyblion ddylanwadu ar ei gilydd<br><br>Cryfhau'r berthynas o gydweithio cynradd/uwchradd e.e.cynnal cyfarfodydd cyswllt rhithiol/cyfarfodydd wyneb yn wyneb gan sefydlu'r arferiad o ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol ymysg disgyblion blwyddyn 6 a 7.<br><br>Atgyfnerthu sgiliau TGCh.<br><br>Sefydlu arferiad o gynnal cyfarfodydd 'Gwefeillio' rhwng disgyblion blwyddyn 6 a 7 er mwyn sefydlu patrwm o sgwrsio'n anffurfiol trwy gyfrwng Y Gymraeg cyn i'r plant o'r adran gynradd drosgwlyddo i'r uwchradd. |
| Hybu ymagweddau cadarnhaol tuag at ddefnyddio'r Gymraeg | Cynnal gweithdai efo staff a disgyblion ysgolion cynradd uwchradd gyda Mererid Hopwood aDr Enlli Thomas (pwysigrwydd dwyieithrwydd) er mwyn;<br><br>• Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd siarad Cymraeg a'r buddion o fod yn |

| | |
|---|---|
| | ddwyieithog mewn byd amlieithog ac amlddiwylliannol.<br>• Anelu at gynnal sgwrs ddwyieithog<br>• Disgyblion yn ymateb i ddata'r Gwe Iaith ac yn meddwl am ffyrdd o drosglwyddo'r negesuon a chynyddu defnydd o'r Gymraeg. |

## Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

Bydd prif amcanion y Siarter Iaith a'r Strategaeth Iaith Uwchradd wedi'u gwreiddio ac yn rhan ganolog i Gynlluniau Datblygu pob ysgol. Bydd ymroddiad a pherchnogaeth gadarn ohonynt, a bydd disgwyliadau uchel o safbwynt ei gweithredu. Bydd strwythur staffio'r ysgolion yn nodi cyfrifoldebau ac atebolrwydd clir am weithrediad gwahanol agweddau o fywyd ysgol sy'n ymwneud â'r Gymraeg, mewn partneriaeth â'r gymuned ehangach er mwyn sicrhau eu perchnogaeth lawn ohoni. Bydd cyfleodd i ddefnyddio'r iaith wedi'u mapio'n glir, a bydd y gweithlu a'r disgyblion yn hyderus yn eu gallu a'u hawydd i ddefnyddio'r iaith ym mhob sefyllfa. Bydd y data a gesglir o'r Gwe Iaith yn cael ei ddefnyddio fel arf cynllunio ar gyfer camau gweithredu pellach. Bydd disgyblion y Sir yn elwa o gyfundrefn addysg drochi arloesol, sydd yn hyblyg ac yn darparu addysg drochi gyfoes o'r radd flaenaf i'r dysgwyr, gan feithrin eu sgiliau yn y Gymraeg i'w galluogi i lwyddo a ffynnu yn ein hysgolion gan ddod yn siaradwyr hyfedr ddwyieithog.

## Data Allweddol

Bydd y data ar gyfer yr adran hon yn cael ei boblogi maes o law, i gynnwys: data'r Gwe Iaith, data mudiadau ac asiantaethau sy'n cydweithio ac yn darparu cyfleoedd gwahanol i blant a phobol ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg e.e. yr Urdd, gweithgareddau Menter Iaith Bangor, Hunaniaith, Clybiau Ieuenctid, CFfI, Cwmniau drama, Clybiau chwaraeon ayyb, data gwirfoddolwyr e.e. gwirfoddolwyr sy'n ymwneud â chlybiau garddio, chwaraeon, darllen ayyb, data gan y Mudiad Meithrin, Dechrau'n deg, ystadegau/canrannau cyfrwng pwnc.

| Cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
| | | | | | | | | | |
| 2027 - 2028 | | 2028 - 2029 | | 2029 - 2030 | | 2030 - 2031 | | 2031 - 2032 | |
| | | | | | | | | | |

# Deilliant 6

## Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (“ADY”) (yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018)

### Ble rydym ni nawr?

Mae pob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cael mynediad at wasanaethau cyfrwng Cymraeg yng Ngwynedd. Mae darpariaethau a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gael ar gyfer yr holl ystod ac amrywiaeth o Anghenion Dysgu Ychwanegol.
Mae gofyn o fewn Deddfwriaeth ADY (2018) sydd yn dod i rym ym Medi 2021 yn gofyn i sicrhau fod dysgwyr yn gallu cael darpariaeth dysgu ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae pob aelod o staff o fewn y Gwasanaeth ADY a CH yn rhugl yn y Gymraeg ac yn gallu darparu yn ddwyieithog.  Mae cyfrwng iaith y mewnbwn yn ddibynnol ar anghenion dysgu unigolion.

### Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

| EIN PRIF AMCANION I GYFLAWNI’N DEILLIANNAU | SUT Y BYDDWN YN CYFLAWNI’N HAMCANION |
|---|---|
| Parhau i ddarparu addysg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol trwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn ddwyieithog, ar hyd pob cam o’r daith addysgol. | Pob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn parhau i gael mynediad at wasanaethau cyfrwng Cymraeg yng Ngwynedd.<br>Pennaeth Cynorthwyol Anghenion Addysg Arbennig a Chynhwysiad (FfEE) |
| | Asesu maint a gallu’r Gweithlu ADY cyfrwng Cymraeg gan ddefnyddio’r canlyniadau i gynllunio’r gweithlu’n briodol.<br>Pennaeth Cynorthwyol Anghenion Addysg Arbennig a Chynhwysiad (FfEE) |
| | Cymryd camau i gynnal archwiliad blynyddol o wasanaethau ADY a Chynhwysiad os bydd bylchau’n ymddangos yn y ddarpariaeth Gymraeg.<br>Pennaeth Cynorthwyol Anghenion Addysg Arbennig a Chynhwysiad (FfEE) |
| | Monitro, asesu’r galw a chynllunio o gwmpas anghenion plant a phobl ifanc a’u teuluoedd, a pharhau i sicrhau mynediad i wasanaethau sy’n gwbl ddwyieithog.<br>Pennaeth Cynorthwyol Anghenion Addysg Arbennig a Chynhwysiad (FfEE) |
| | Ystyried unrhyw geisiadau rhesymol am gymorth a chefnogaeth gan siroedd eraill y |

| | |
|---|---|
| | rhanbarth sydd yn wynebu anawsterau o ran eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.<br>Pennaeth Cynorthwyol Anghenion Addysg Arbennig a Chynhwysiad (FfEE) |
| Cynllunio o gwmpas anghenion plant a phobl ifanc a'u teuluoedd. | Ymgysylltu gyda rhieni/gofalwyr er mwyn sicrhau eu bod yn deall y ddarpariaeth a'r cymorth sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.<br>Pennaeth Cynorthwyol Anghenion Addysg Arbennig a Chynhwysiad (FfEE) |
| | Cynnal archwiliad o'r adnoddau dysgu sydd eu hangen ar hyn o bryd ac nad ydynt ar gael o fewn yr AALl er mwyn cefnogi dysgwyr ADY, yn ogystal ag edrych ar y ffordd mae adnoddau'n cael eu rhannu'n fewnol ac yn rhanbarthol.<br>Pennaeth Cynorthwyol Anghenion Addysg Arbennig a Chynhwysiad (FfEE) |
| Gweithredu'r Strategaeth ADY a Chynhwysiad Gwynedd ac Ynys Môn. | Defnyddio canfyddiadau arolygiadau o dan adran 63 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 er mwyn gwella darpariaeth ar gyfer personau ag anghenion dysgu ychwanegol ac ar gyfer cynllunio gweithlu o fewn y sector ADY.<br>Pennaeth Cynorthwyol Anghenion Addysg Arbennig a Chynhwysiad (FfEE) |

## Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

Gweler Cynlluniau Gweithredu ADY y Sir.

# Deilliant 7

## Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg

### Ble rydym ni nawr?

Disgwylir i weithlu addysg (athrawon, cymorthyddion, cymorthyddion cegin) ddiweddaru Holiadur Sgiliau Iaith yn flynyddol ar ddechrau'r flwyddyn addysgol er mwyn sicrhau data sydd yn gyfredol, i allugoi cynllunio hyfforddiant a chefnogaeth briodol ar eu cyfer, fydd yn eu gallugoi i addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd gofynion y Dynodiadau Iaith yn cael eu gweithredu yn y broses recriwtio, a thargedau yn cael eu monitro i sicrhau cynnydd yn y nifer.

Yn sgil yr Awdit Sgiliau gyda gweithlu ein hysgolion a gynhaliwyd ar draws Rhanbarth y Gogledd yn 2017-18, mae gwaith manwl wedi ei gyflawni i edrych ar ganfyddiadau'r Awdit, ac ystyried pa hyfforddiant a chefnogaeth ieithyddol sydd ei angen ar weithlu ein hysgolion. Yn ystod 2018-19, cynhaliwyd yr hyfforddiannau canlynol:

- Gloywi Iaith: Ysgol Glan y Môr, Pwllheli
- Gloywi Iaith: Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon
- Parhad o gynlluniau peilot i ddatblygu sgiliau iaith y gweithlu yn Ysgol Friars ac Ysgol Uwchradd Tywyn.

### Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

Byddwn yn defnyddio canlyniadau Holiadur Iaith y Gweithlu er mwyn cynllunio cefnogaeth briodol ac yn monitro cynnydd unrhyw gynlluniau a weithredir.

| EIN PRIF AMCANION I GYFLAWNI'N DEILLIANNAU | SUT Y BYDDWN YN CYFLAWNI'N HAMCANION |
|---|---|
| Gwneud defnydd o ddata Cyfrifiad Blynyddol y Gweithlu i lywio gwaith cynllunio'r gweithlu a rhagdybio faint o athrawon fydd eu hangen ar gyfer y dyfodol yn seiliedig ar ragdybiaethau. | Ymwybyddiaeth glir o'r nifer o swyddi gwag sydd o fewn ysgolion yr Awdurdod yn ôl y math o ysgol ac ystyried beth yw'r tueddiadau o ran swyddi gwag. GwE/Llywodraeth Cymru/ALl |
| | Ymwybyddiaeth glir o'r nifer o athrawon a phenaethiaid sydd eu hangen fesul math o ysgol (a phwnc os yn berthnasol) yn seiliedig ar y sefyllfa bresennol er mwyn ymateb i dargedau. GwE/Llywodraeth Cymru/ALl |
| Cydweithio gyda chonsortia rhanbarthol a'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol er mwyn sicrhau cyflenwad digonol o benaethiaid ar gyfer y sector cyfrwng Cymraeg. | Datgan ei bod yn ofynnol i ddeiliaid swyddi allu cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg i lefel briodol y swydd wrth hysbysebu swyddi. Pennaeth Addysg(GJ) |
| | Ymrwymo i feithrin cynhwysedd arweinyddiaeth drwy annog a chefnogi pob ymarferydd i ddatblygu ei botensial arweinyddiaeth ei hun a photensial |

| | |
|---|---|
| | arweinyddiaeth ymarferwyr eraill, gan annog staff i fanteisio ar y cyfleoedd DPP effeithiol hyn.<br>GwE/ Swyddog Addysg Arfon (DJ)/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ) |
| | Llywodraethwyr ysgolion yn meddu ar ddealltwriaeth o ofynion ieithyddol swyddi sydd yn cael eu hysbysebu ac o oblygiadau methu llwyddo i benodi yn unol â gofynion ieithyddol y swydd.<br>Swyddog Adnoddau Cynorthwyol, Addysg(BMJ)/<br>Swyddog Addysg Arfon (DJ)/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ) |
| Cydweithio gyda chonsortia rhanbarthol a darparwyr addysg gychwynnol i athrawon er mwyn sicrhau cyflenwad digonol o athrawon cyfrwng Cymraeg. | Datgan ei bod yn ofynnol i ddeiliaid swyddi allu cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg i lefel briodol y swydd wrth hysbysebu swyddi.<br>GwE/ Swyddog Addysg Arfon (DJ) |
| Mewn cydweithrediad gyda chonsortia rhanbarthol, cynorthwyo athrawon a gweithwyr cymorth i wella'u sgiliau Cymraeg a'u sgiliau addysgu cyfrwng Cymraeg drwy ddefnyddio cyrsiau fel Cynllun Sabothol a chynllunio ôl-ofal i unigolion ar ddiwedd cwrs. | Ymwybyddiaeth glir o faint o weithwyr cymorth dysgu sydd eu hangen o fewn yr Awdurdod, a sicrhau bod cymorth ar gael i gynnal sgiliau Cymraeg y gweithwyr.<br>GwE/ Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg, Cefnogaeth Gorfforaethol/ Pennaeth Addysg (GJ) |
| | Sicrhau bod staff sydd angen cynyddu a gwella'u sgiliau iaith yn derbyn anogaeth a chymorth i ddatblygu'u sgiliau dwyieithog hyd at safon addysgu.<br>Pennaeth Addysg(GJ)/ GwE/ Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg, Cefnogaeth Gorfforaethol |
| | Rhaeadru gwybodaeth am y cyrsiau sydd ar gael ar gyfer athrawon, hyfforddwyr, darlithwyr a chynorthwywyr dosbarth sydd eisiau gwella eu Cymraeg a magu hyder yn yr iaith.<br>Pennaeth Addysg(GJ)/ GwE/ Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg, Cefnogaeth Gorfforaethol |
| | Cynnal trafodaethau ar sut orau i ddatblygu a gloywi iaith ymarferwyr addysg, mamiaith ac ail iaith, er mwyn iddyn nhw deimlo'n hyderus i addysgu a gweinyddu trwy gyfrwng y Gymraeg.<br>GwE/ Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg, Cefnogaeth Gorfforaethol/ Cydlynydd Siarter Iaith/ Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd |

| | |
|---|---|
| | Parhau i gydweithio'n agos gyda Phrifysgol Bangor er mwyn sicrhau bod y Cynllun Sabothol yn cael ei ddefnyddio'n strategol i ddiwallu anghenion ysgolion.<br>GwE |
| | Annog mwy o athrawon a chynorthwywyr dosbarth i fanteisio ar y cyfleoedd sy'n bodoli i loywi sgiliau cyfathrebu yn y Gymraeg trwy ddarpariaeth 'Cymraeg i Oedolion' a darpariaeth a geir gan y Cyngor yn uniongyrchol.<br>GwE/ Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg, Cefnogaeth Gorfforaethol/ Cydlynydd Siarter Iaith/ Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd |
| | Cynnal a hyrwyddo DPP sy'n cefnogi hyfforddiant i athrawon uwchradd ym methodolegau addysgu a dysgu dwyieithog, gan fanteisio ar enghreifftiau o arfer dda sydd eisoes ar waith yn nifer yr ysgolion ac ymchwil ddiweddar wrth wneud hynny.<br>GwE/ Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg, Cefnogaeth Gorfforaethol/ Cydlynydd Siarter Iaith/ Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd |
| | Datblygu hyfforddiant i gymorthyddion ac athrawon gan gynnal gweithdai cydweithredol ar ddatblygu cyfleoedd Llafaredd cyfoethog ac estynedig mewn dosbarthiadau Cyfnod Sylfaen.<br>GwE/ Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg, Cefnogaeth Gorfforaethol/ Cydlynydd Siarter Iaith/ Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd |
| Cefnogi gweithlu'r ysgolion i ddatblygu eu sgiliau yn y Gymraeg, i loywi iaith, yn ogystal â'u gallu i ddysgu ac addysgu yn Gymraeg a dwyieithog. | Sicrhau bod gan y gweithlu ddisgwyliadau cadarn a theimlad o falchder yn llwyddiant yr ysgol i weithredu'r Strategaeth.<br>Darparu hyfforddiant perthnasol sydd yn ateb anghenion penodol ac yn cefnogi staff i ddatblygu a meithrin eu hyder i ddefnyddio'r iaith.<br>Cefnogi'r gweithlu i allu cyflwyno pynciau yn gynyddol ac yn fwy effeithiol trwy gyfrwng y Gymraeg ac i ddarparu'n effeithiol ar gyfer disgyblion sy'n ddysgwyr y Gymraeg.<br>Cydlynydd Siarter Iaith/ Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg, Cefnogaeth Gorfforaethol/ Swyddog Addysg Arfon (DJ)/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)/Staff Ysgolion |

| | |
|---|---|
| | Darparu hyfforddiant addysg drochi priodol i addysgwyr y sir i'w galluogi i ymateb i anghenion disgyblion sy'n newydd ddyfodiaid i'r ysgol, ac/neu i newydd ddyfodiaid sy'n trosglwyddo'n ôl i'r ysgolion yn dilyn cyfnod yn y Gyfundrefn Drochi.' Cydlynydd Siarter Iaith/ Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg, Cefnogaeth Gorfforaethol/ Swyddog Addysg Arfon (DJ)/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)/Staff Ysgolion |

| **DEILLIANT 7: CYNLLUN GWEITHREDU STRATEGAETH IAITH UWCHRADD** | |
|---|---|
| Anghenion hyfforddi | Gwneud defnydd o ddata Awdit Sgiliau Iaith – adnabod anghenion a chynllunio ar gyfer diwallu'r anghenion hynny. |

## Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

Byddwn yn cydweithio gydag adrannau'r cyngor ar brosiect Dynodiadau iaith. Bwriadwn gryfhau'r defnydd ohonynt i adnabod anghenion ieithyddol Gweithlu Addysg Gwynedd, gan weithredu cynlluniau priodol mewn ymateb i'r anghenion a amlygir.

## Sut y byddwn yn gweithio gydag eraill i gyflawni ein gweledigaeth

**CYLCH GORCHWYL FFORWM IAITH GWYNEDD**

PWRPAS:

I gymryd trosolwg o holl agweddau'r CSGA, gan sicrhau comisiynu addas, cynnydd ar gamau gweithredu a deilliannau, a chyd-lynedd y gweithredu i gyflawni'r deilliannau fel un cyfanwaith. Bydd hyn yn cynnwys:

- Trosolwg o'r holl ddeilliannau
- Darparu arweiniad a chyngor cyffredinol i bob deilliant
- Briffio a herio cynnydd ar gamau gweithredu
- Comisiynu gwaith gan Fyrddau Prosiect eraill a gwasanaethau eraill
- Awdurdodi unrhyw newidiadau o bwys i ddeilliant unigol neu CSGA fel cyfanwaith
- Ystyried unrhyw gyfyngiadau allanol ar y deilliannau neu'r CSGA fel cyfanwaith
- Adnabod a dileu unrhyw rwystrau mewnol neu allanol i ddeilliant unigol neu'r CSGA fel cyfanwaith.

AMLDER CYFARFODYDD:

Bydd y Bwrdd Rhaglen yn cyfarfod yn chwarterol. Pe cyfyd materion fydd angen eu dyrchafu o fyrddau prosiect unigol, yna bydd modd trefnu cyfarfodydd ychwanegol yn ôl yr angen.

RÔL:

Mae'r Bwrdd Rhaglen wedi ei awdurdodi i weithio o fewn i goddefiannau amser, cyllid ac ansawdd i sicrhau y cyflawnir deilliannau unigol a'r CSGA yn ei gyfanrwydd.
Disgwylir i'r Bwrdd Rhaglen liniaru unrhyw risgiau sydd yn codi, ynghyd â monitro perfformiad a chynnydd o safbwynt deilliannau unigol a'r CSGA yn ei gyfanrwydd.
Bydd y Bwrdd Rhaglen yn gweithredu fframwaith llywodraethu priodol i gefnogi'r CSA er mwyn cyrraedd y deilliannau disgwyliedig.

DOGFENNAETH:

Bydd dogfennau perthnasol ar gyfer sylw aelodau yn cael eu dosbarthu oddeutu ythnos o flaen llaw. Bydd dogfennaeth yn cael eu dosbarthu yn electroneg, a bydd copi cael ar gael yn ôl yr angen.


TREFNIADAU ADRODD:

Disgwylir i allbwn cyfarfodydd y Bwrdd gael eu cofnodi a'u cadw fel rhan o ddogfennaeth y CSGA. Bydd dogfennaeth cyfarfodydd y Bwrdd Rhaglen a'r allbynnau yn gyfrwng i lunio Adroddiad Blynyddol yr Adran Addysg ar weithrediad y CSGA. Caiff Adroddiad Blynyddol CSGA ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Iaith cyn cael ei anfon ymlaen at Lywodraeth Cymru.

AMSERLEN:

Bydd y Bwrdd Rhaglen yn para hyd y CSGA, sef 10 mlynedd. Caiff y Cylch Gorchwyl ei adolygu bob 2 flynedd, neu'n achlysurol yn ôl yr angen

**STRWYTHUR ARFAETHEDIG CSGA**




## AELODAETH FFORWM IAITH GWYNEDD

**FFORWM IAITH GWYNEDD** (BWRDD RHAGLEN)
Aelodaeth:

| | |
|---|---|
| Garem Jackson(Cadeirydd) | Pennaeth Addysg, |
| Debbie Anne Jones (Is-Gadeirydd) | Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg |
| Cemlyn Rees Williams | Aelod Cabinet Addysg |
| Nia Jeffreys | Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol (Iaith) |
| Cai Larsen | Pwyllgor Iaith |
| Gwern ap Rhisiart | Arweinydd Deilliant 1 CSGA |
| Diane Jones | Arweinydd Deilliant 2 CSGA |
| Diane Jones | Arweinydd Deilliant 3 CSGA |
| Rhian Parry Jones | Arweinydd Deilliant 4 CSGA |
| Cynrychiolydd Hunaniaith | Arweinydd Deilliant 5 CSGA |
| Ffion Edwards Ellis | Arweinydd Deilliant 6 CSGA |
| Rhian Parry Jones | Arweinydd Deilliant 7 CSGA |